**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC-07-02(cof)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 24 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 2.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru,<br><br>Bae Caerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |

| | |
|---|---|
| Neil Jones | Prif Syrfëwr Ystadau, Yr Is-adran Ystadau |
| Nigel Towns | Prif Weithredwr Dros Dro, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sir John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Martin Peters | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddog Cydymffurfio Cynorthwyol y Cynulliad |

| | |
|---|---|
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Cyngor |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2.00 – 2.15 pm**

**Eitem 1**

**Parhau i Adfywio Bae Caerdydd**

1.1 Rhoddod Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar y datblygiadau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf 2002. Cafodd y Pwyllgor wybod y cytunwyd gyda Chyngor Dinas Caerdydd y byddai staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru'n mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdod Harbwr Caerdydd. Roedd y staff eisoes wedi dechrau mynychu'r cyfarfodydd ac roedd hynny'n golygu y gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru weld yr holl lyfrau a'r cofnodion yr oedd eu hangen i roi adroddiad yn unol â'r cytundeb adran 165 rhwng y Cynulliad a Chyngor Sir Caerdydd. Cadarnhaodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei fod yn fodlon â'r trefniadau hyn.

**<u>2.15 – 3.15pm</u>**

**Eitem 2**

**Sesiwn Clywed Tystiolaeth - Gwerthu Ysbyty Talgarth**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru, Neil Jones, Prif Syrfëwr Ystadau, yr Is-adran Ystadau, a Nigel Towns, Prif Weithredwr Dros Dro Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, ynghylch adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru *Gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru*, a gyhoeddwyd ar 16 Hydref.

2.2 Ceir trawsgript gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad A y cofnodion.

**Pwynt Gweithredu**

- Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael nodyn yn cadarnhau sut y cafodd Ymddiriedolaeth GIG Powys wared ar yr offer a'r cyfarpar a oedd yn eiddo i'r GIG yn ysbyty Talgarth.
- Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n ystyried ymhellach y materion a fyddai'n codi yng ngwrandawiadau'r pwyllgor ac yn paratoi memorandwm pellach i'r pwyllgor petai hynny'n briodol.

Cytunodd y pwyllgor i gael egwyl hyd 3.30pm.

**<u>3.30 – 3.45 pm</u>**

**Eitem 3**

**Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian**

**Papur: AC-07-02(p2)**

3.1 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bapur yn amlinellu'r archwiliadau gwerth am arian a oedd yn yr arfaeth neu ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-2003 ac amserlen ar gyfer archwiliadau gwerth am arian arfaethedig ar gyfer blynyddoedd ariannol 2003-2004, 2004-2005 a thu hwnt.

3.2 Cymeradwyodd y pwyllgor yr archwiliadau gwerth am arian a oedd yn yr arfaeth, ond roedd yn gobeithio y byddai rhai archwiliadau y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2003-2004 yn cael blaenoriaeth uwch yn yr amserlen. Er hynny roedd yn cydnabod mai Archwilydd

Cyffredinol Cymru fyddai'n penderfynu yn y pen draw. Yn ôl categori, dyma'r archwiliadau i'w hailystyried:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: rhoi mwy o flaenoriaeth i drais yn y GIG; cael gwasanaeth deintydd; gwasanaethau iechyd meddwl. Dywedodd rhai o'r aelodau y gellid gwneud hyn drwy roi blaenoriaeth is i restri aros y GIG a chaffael, ond nid oedd pawb o'r un farn.
- Yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth: ansawdd traethau Cymru; ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd.
- Addysg a Hyfforddiant: Gyrfa athro/athrawes yng Nghymru: gan gynnwys edrych ar yr arbenigedd sydd ar gael a safon addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion; arian cyfalaf i ysgolion; Estyn - caffael arolygwyr cofrestredig.
- Datblygu Economaidd: Gwaith dilynol ar Gronfeydd Strwythurol yr UE. Awgrymwyd hefyd y gellid cyfuno tri darn o waith yn ymwneud â busnesau bach o dan un thema, megis archwilio'r 'rhwydwaith cymorth i fusnesau'.
- Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig: Y Cynllun Adfer Cefn Gwlad; adolygiad o'r Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid. Nodwyd y gallai archwilio'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad yn gynt olygu y byddai'n rhaid oedi cyn gallu archwilio taliadau iawndal y diciâu.
- Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg: gwaith dilynol ar archwilio Cyngor y Celfyddydau.

Pwyntiau Gweithredu

- Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru'n ystyried y pwyntiau a godwyd ac yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am unrhyw gynigion i ailflaenoriaethau'r archwiliadau yn unol â'r amserlen a'r adnoddau a oedd ar gael iddo.
- Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru'n rhoi gwybod i'r pwyllgor a oedd archwiliad o eithriadau i bresgripsiynau'r GIG yn rhan o'i gylch gwaith.
- Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru'n rhoi nodyn i'r pwyllgor ar yr ymchwiliadau a gynhaliwyd i arlwyo mewn ysbytai.

**3.45 – 3.55 pm**

**Eitem 4**

**Amcangyfrif Drafft o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Papur: AC-07-02(p3)

4.1 Cyflwynwyd i'r pwyllgor amcangyfrif drafft Archwilydd Cyffredinol Cymru o incwm a threuliau ei swyddfa yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2004 er mwyn cyflawni'r flaenraglen waith a gyflwynwyd i'r pwyllgor.

4.2 Cyflwynwyd yr amcangyfrif o ran adnoddau net ac arian net, i adlewyrchu'r adnoddau nad ydynt yn arian sydd ar gael iddo ar hyn o bryd ac sydd eu hangen arno i wneud ei waith, megis y swyddfa yng Nglanfa'r Cynulliad.

4.3 Roedd yr arian net terfynol y byddai ei angen yn cynnwys £100,000 ar gyfer gwaith ychwanegol y Cynulliad ar gais gweinidogion ac uwch swyddogion y tu hwnt i'r rhaglen gwerth am arian, er enghraifft o ran ad-drefnu'r GIG.

4.4 Nododd y pwyllgor y gellid fod wedi arbed £40 miliwn yn sgil archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chytunodd i gymeradwyo'r amcangyfrif ar gyfer 2003-04.

**3.55 – 4.00 pm**

**Eitem 5**

**Penodi archwilydd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Papur AC-07-02(p4)**

5.1 Roedd contract 3 blynedd yr archwilwyr presennol, Owens Thomas & Co, gyda'r Cynulliad wedi dod i ben ac ystyriodd y pwyllgor estyn y contract am ddwy flynedd arall, yn unol â hawl y Cynulliad.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwrdd â Laurie Pavelin, Pennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol, a chyfrifydd yn Owens Thomas & Co. Eu casgliad oedd bod y cwmni wedi gweithio'n effeithlon ac yn drylwyr. Trafododd y Pwyllgor a ddylid eu hailbenodi, a nodwyd y byddai'n dda o beth cadw archwilydd a oedd wedi dod i wybod llawer am y gwaith. Cydnabuwyd hefyd y byddai angen dal ati i adolygu'r penodiad er priodoldeb.

Pwynt Gweithredu

- Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn argymell y dylai'r Cynulliad estyn y contract am ddwy flynedd arall, ond y byddai'r penodiad yn cael ei adolygu tua diwedd y contract 5 mlynedd.

**4.00 – 4.05pm**

**Eitem 6**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur: AC-06-02(cof)**

6.1 Ystyriodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod Eitem 4 yn dweud bod Val Lloyd yn gyn gynghorydd, ond ei bod mewn gwirionedd yn dal i wasanaethu fel cynghorydd. Yn amodol ar y newid hwnnw, cytunodd y pwyllgor i gymeradwyo'r cofnodion.

**<u>4.05 – 4.10pm</u>**

**Eitem 7**

**Papurau i'w nodi**

**Teitl Cyfeirnod y papur**

Ymateb y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Cyllid GIG AC-07-02(p5)

Cymru 2002'

Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio 'Rheoli Ystâd AC-07-02(p6)

y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru''

Gohebiaeth oddi wrth Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad AC-07-02(p7)

ynghylch adroddiad y Pwyllgor Archwilio: *Parhau i*

*Adfywio Bae Caerdydd*

10. Nododd y pwyllgor y papurau.

Pwynt Gweithredu

- Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru'n adolygu ymatebion y Cabinet ac yn dod yn ôl at y pwyllgor i roi sylwadau ac argymhellion, gan gynnwys a ddylai'r pwyllgor wahodd y Gweinidog i roi eglurhad ysgrifenedig pellach neu ddod ger eu bron i ateb cwestiynau.

**<u>4.10 – 4.20pm</u>**

**Eitem 8**

**Adroddiadau Drafft y Pwyllgor Archwilio**

8.1 Adnewyddu a Gwaredu Eiddo a Ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru

**Papur:** AC 07-02(p8**)**

8.2 Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Mwyhau'r Buddion i Gymru

**Papur** AC 07-02(p9)

1. Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd tra byddai'n ystyried yr adroddiadau drafft yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi), *'Gall pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod: (vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi'*.

8.4 Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiadau drafft yn amodol ar rai mân newidiadau.

8.5 Daeth y cyfarfod i ben am 4.20pm.